



**Pennod Ragarweiniol - Aseiad Poblogaeth
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**



BETH YW ASESIAD POBLOGAETH?

- ▶ Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y ddeddf sy'n llywodraethu'r ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol yn diogelu pobl rhag cam-drin ac esgeulustod ac yn helpu pobl i fyw bywydau llawn ac i wella'u llesiant.
 - ▶ Mae asesiad poblogaeth yn ymarfer a wneir gan wasanaethau cymdeithasol a'r byrddau iechyd gan weithio gyda chyd-bwyllgor sy'n gweithredu yn eu hardal i gasglu gwybodaeth am lesiant a'r rhwystrau i lesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofalwyr.
 - ▶ Bydd yr asesiad poblogaeth yn ystyried yr hyn a allai atal pobl rhag bod angen gofal a chymorth yn y lle cyntaf, neu bethau y gellid eu gwneud i atal yr angen am ofal a chymorth rhag cynyddu.
 - ▶ Mae'r gyfraith [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014] yn dweud bod rhaid i asesiadau poblogaeth fod ar gael ar ffurf adroddiad ar sail ranbarthol. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu tair ardal awdurdod lleol sef Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – gelwir hyn yn ardal Bae'r Gorllewin
-





BETH YW LLESIANT?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys:

- ↳ Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
 - ↳ Diogelu rhag cam-drin ac esgeulustod
 - ↳ Addysg, hyfforddiant a hamdden
 - ↳ Perthnasau domestig, teuluol a phersonol
 - ↳ Cyfraniad a wneir i gymdeithas
 - ↳ Diogelu hawliau
 - ↳ Llesiant cymdeithasol ac economaidd
 - ↳ Addasrwydd llety preswyl
-

O ran plant, mae llesiant hefyd yn cynnwys:

- ↳ Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- ↳ Llesiant fel y mae'r gair hwnnw'n cael ei ddehongli at ddibenion Deddf Plant 1989





CANLYNIADAU LLESIANT

- ▶ Mae'r gyfraith yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am wella llesiant yn cael ei rannu rhwng y rhai sy'n darparu gofal a chymorth a'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth.
- ▶ Mae'r datganiadau canlyniadau llesiant cenedlaethol wedi cael eu datblygu i wneud yn glir beth dylai pobl ei ddisgwyl er mwyn byw bywydau llawn.

Diffinlad o lesiant	Datganladau canlyniadau llesiant cenedlaethol
Dlogelu hawllau ac (I oedolion) rheolaeth dros fywyd bob dydd	<ul style="list-style-type: none"> • Dwl'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyffleoedd sydd ar gael a dwl'n defnyddio'r rhain i wella fy llesiant • Dwl'n gallu cael myedlad l'r wybodaeth gywlr, pan fydd el hangen arna i, yn y ffordd mae el hangen arna i, a dwl'n el defnyddio l reoll a gwella fy llesiant • Dwl'n cael fy nhrln ag urddas a pharch a dwl'n trln eralll yn yr un ffordd • Mae pobl yn clywed fy llais ac yn gwrandao arna i • Mae fy amgylchladau unigol yn cael eu hystyried • Dwl'n slarad drosof fl fy hunan a dwl'n cyfrannu l'r penderfynladau sy'n effelthlo ar fy mywyd, neu mae gen i rywun a all wneud hyn ar fy rhan
Iechyd corfforol a meddyllol a llesiant emoslynol Hefyd l blant: datblyglad corfforol, deallusol, emoslynol, cymdelthasol ac ymddygladol	<ul style="list-style-type: none"> • Dwl'n iach ac yn actif ac yn gwneud pethau l gadw fy hun yn iach • Dwl'n hapus ac yn gwneud y pethau sy'n gwneud l ml delmio'n hapus • Dwl'n cael y gofal a'r cymorth cywlr, cyn gynted ag y bo modd
Dlogelu rhag cam-drln ac esgeulustod	<ul style="list-style-type: none"> • Dwl'n ddlogel ac yn cael fy nlogelu rhag cam-drln ac esgeulustod • Dwl'n cael fy nghefnogl l ddlogelu'r bobl sy'n bwyslg l ml rhag cam-drln ac esgeulustod • Dwl'n cael gwybodaeth ynghylch sut l leislo fy mhryderon
Addysg, hyfforddiant a hamdden	<ul style="list-style-type: none"> • Dwl'n gallu dysgu a datblygu l'm llawn botensial • Dwl'n gwneud y pethau sy'n bwyslg i mi
Perthnasau domestlg, teuluol a phersonol	<ul style="list-style-type: none"> • Dwl'n perthyn • Dwl'n mwynhau perthnasau diogel ac iach ac yn cyfrannu iddyn nhw
Cyfranlad a wnel l gymdelthas	<ul style="list-style-type: none"> • Dwl'n cymryd rhan ac yn cyfrannu i'm cymuned • Dwl'n telmlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogl yn y gymdelthas
Llesiant cymdelthasol ac economaldd	<ul style="list-style-type: none"> • Dwl'n cyfrannu tuag at fy mywyd cymdelthasol ac yn gallu bod gyda'r bobl dwl'n eu dewls • Dwl ddllm yn byw mewn tlodl • Dwl'n cael fy nghefnogl l welthlo • Dwl'n cael y cymorth sydd el angen arna l l dyfu a bod yn annlbynnol • Dwl'n cael gofal a chymorth drwy'r Gymraeg os bydd el angen arna l
Addasrwydd byw	<ul style="list-style-type: none"> • Dwl'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi i orau i wella fy llesiant





THEMÂU CRAIDD

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyngori y dylid crynhoi canfyddiadau'r asesiad poblogaeth yn ôl themâu craidd:



Nam ar y synhwyrâu



Sefydliadau diogel



Anabledd dysgu/awtistiaeth

50+

Pobl hŷn



Iechyd meddwl



Plant a phobl ifanc



Diogelu a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid



Iechyd/anableddau corfforol



Gofalwyr y mae angen cymorth arnynt



Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Rydym hefyd wedi penderfynu cynnwys thema graidd sy'n crynhoi anghenion pobl a ddelir mewn llety diogel – carchardai a Chanolfan Ddiogel Hillside yn yr asesiad poblogaeth ar gyfer ardal Bae'r Gorllewin





GWYBODAETH ALLWEDDOL

Wrth gynhyrchu'r asesiad poblogaeth, mae gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau wedi cael ei chasglu a'i dadansoddi gyda'r bwriad o nodi:

▼ Angen

- ▼ I ba raddau y mae angen gofal a chymorth ar bobl yn yr ardal
 - ▼ I ba raddau y mae angen cymorth ar ofalwyr yn yr ardal
 - ▼ I ba raddau nad yw anghenion gofal a chymorth pobl yn cael eu hateb
-

▼ Amrywiaeth a Lefel y Gwasanaethau:

- ▼ Amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ateb anghenion gofal a chymorth y boblogaeth ac anghenion gofalwyr
- ▼ Amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i atal pobl rhag bod ag angen gofal a chymorth neu lefelau uwch o ofal a chymorth
- ▼ Y gweithredoedd sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg





EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o bethau pwysig y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth wneud yr asesiad poblogaeth:

- Yr angen i edrych bob amser am ffyrdd o wella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt
- Canolbwyntio ar ffyrdd o oedi ac atal yr angen am ofal a chymorth neu atal yr anghenion rhag cynyddu
- Sicrhau bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt neu ofalwyr yn cael dewis a rheolaeth dros y ffordd mae eu anghenion yn cael eu hateb
- Gwneud yn siŵr y gall amrywiaeth eang o bobl fwydo eu gwybodaeth i'r asesiad, gan gynnwys pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr, pobl sy'n gweithio ym meysydd gofal cymdeithasol ac ieched, pobl sy'n gweithio'n wirfoddol, yn ogystal â'r gymuned ehangach
- Hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu sefydliadau dielw a allai ddarparu gwasanaethau gofal, cymorth ac ataliol






BETH YW BAE'R GORLLEWIN?

Cyfanswm poblogaeth Bae'r Gorllewin yw tua 529,000. Mae'n cynnwys tri Awdurdod Lleol, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe gyda phoblogaethau o tua 143,000, 141,000 a 245,000 yn y drefn honno.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos y bydd maint poblogaeth y tair ardal yn cynyddu. Erbyn 2036, amcangyfrifir y bydd cyfanswm poblogaeth Bae'r Gorllewin yn cynyddu 6.4% i oddeutu 563,000.


BAE'R GORLLEWIN - PROFFIL OEDRAN TRIGOLION

▼ Canran y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw, BI PABM, 2005 a 2014



AMCANESTYNIADAU POBLOGAETH BAE'R GORLLEWIN

▼ Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl grŵp oedran, newid yn y ganran er 2011, BI PABM, 2011-2036








IAITH GYMRAEG


	Holl drigolion arferol 3 oed a hyn	Dim sgiliau Cymraeg	Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig	Gallu siarad Cymraeg	Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu ei darllen na'i hysgrifennu	Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ei hysgrifennu	Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg
Pen-y-bont ar Ogwr	134,545	82.7%	4.1%	9.7%	1.5%	0.9%	7.3%	3.6%
Castell-nedd Port Talbot	135,278	75.2%	6.4%	15.3%	2.7%	1.6%	10.8%	3.3%
Abertawe	231,155	80.7%	5.5%	11.4%	2.0%	1.2%	8.1%	2.6%


CYFYNGIADAU

- 

Mae ein data yn gyffredinol yn bwrw goleuni ar y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Mae llawer mwy o bobl yn y boblogaeth a allai fod ag angen gofal a chymorth neu sydd yn ofalwyr ac nid ydym yn gwybod llawer am eu hanghenion
- 

Mae llawer o'r data a ddarperir trwy'r Aseiad Poblogaeth yn seiliedig ar ble mae pobl yn byw, ond mae 'na eithriad pwysig pan fydd data'n dod o gofrestrau meddygon teulu – mae hyn yn ymwneud â'r feddygfa mae rhywun yn gofrestredig gyda hi
- 

Rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddata cysylltiedig â 2014/15 ond mae eithriadau i hyn
Mae gennym wybodaeth gyfyngedig am effaith gwasanaethau ar fywydau pobl.
- 

Wrth i ffyrdd newydd o weithio gael eu cyflwyno, byddwn yn llawer mwy clir ynghylch y ffordd y mae pobl yn profi gwasanaethau a'r gwahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i'w llesiant
- 

Cawsom ddata gan amrywiaeth o bartneriaid yn hwyr yn y broses. Yn anffodus, oherwydd bod rhaid i ni gynhyrchu ein hadroddiad erbyn 31 Mawrth 2017, nid ydym wedi medru cynnwys y data hynny ond gellir eu hystyried pan fydd y Bwrdd Rhanbarthol yn dechrau paratoi ei Gynllun.





BETH SY’N DIGWYDD NESAF?

- ▼ Caiff canfyddiadau'r asesiad poblogaeth eu defnyddio gan y tri chyngor a'r Bwrdd Iechyd i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n hyrwyddo lles pobl ag anghenion gofal a chymorth
- ▼ Bydd yr asesiad poblogaeth yn llywio newid, gan helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu targedu, yn gynaliadwy, yn effeithlon ac yn effeithiol
- ▼ Caiff yr asesiad poblogaeth ei ystyried gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus pan fyddant yn datblygu eu Cynlluniau Llesiant
- ▼ Bydd yr asesiad poblogaeth hefyd yn cysylltu â'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a gynhrychir gan y Byrddau Iechyd Lleol
- ▼ Yn ogystal, dylai'r asesiad poblogaeth oleuo'r gwaith o gynhyrchu strategaeth digartrefedd





WESTERN BAY

POPULATION ASSESSMENT REPORT

www.westernbay.org.uk